

Adroddiad Blynyddol
Age Cymru Gwynedd a Môn
2018-19

Croeso i'n hadroddiad blynyddol

Age Cymru Gwynedd a Môn yn cyrraedd y safon!

Eleni rydym yn falch o gael cydnabyddiaeth a chyrraedd Safon Ansawdd Elusennau Age UK (CQS) a hefyd y Safon Ansawdd Cyngori (AQS) sy'n cydnabod safon uchel ein perfformiad fel sefydliad.

Caiff y Safon CQS ei asesu'n allanol a'i ddyfarnu i aelodau o rwydwaith Age UK sydd wedi dangos eu bod wedi'u llywodraethu a'u rheoli yn dda; eu bod gyda cyfeiriad a strategaeth glir; a'u bod wedi ymrwymo i sicrhau lles a diogelwch pobl hŷn, eu staff a gwirfoddolwyr.

Caiff y Safon AQS ei ddyfarnu i sefydliadau sydd yn darparu cyngor i'r cyhoedd ar faterion llesiant cymdeithasol. Er mwyn cwrdd â'r safon rhaid i sefydliadau brofi eu bod yn cael ei reoli yn effeithiol ac yn cyflogi swyddogion sydd gyda'r sgiliau a'r wybodaeth er mwyn cwrdd ag anghenion eu cleientiaid.



Cynnwys

Trosolwg

Adroddiad y Prif Swyddog
Y Bwrdd Ymddiriedolwyr
Nôd ac amcanion yr Elusen
Arian wrth gefn

Cyngor a Gwybodaeth

Ystadegau ar gyfer 2018-19
Budd-daliadau
Cyllid Iach
Cynllun Bathodyn Glas

Eiriolaeth

Ystadegau ar gyfer 2018-19
Astudiaeth Achos

Gwasanaethau Gofal

Ystadegau ar gyfer 2018-19
Astudiaeth Achos

Cyfleon Cymdeithasu

Ystadegau ar gyfer 2018-19
Astudiaeth Achos
Bod yn greadigol
Dosbarthiadau TG
Men's Shed Caernarfon

Yn y gymuned

Ystadegau ar gyfer 2018-19
Pryd Adref
Fforymau Ynys Môn
Ein siopau

Eich cyfraniad chi

Ystadegau ar gyfer 2018-19
Gwobrwyo Gwirfoddolwyr
Astudiaeth Achos

Gwasanaethau newydd ar gyfer 2019

Adroddiad y Prif Swyddog

Mae'r Elusen unwaith eto eleni yn falch o gyflwyno ein hadroddiad blynyddol, hynny wedi i ni sicrhau darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i lawer o bobl hŷn yn Siroedd Gwynedd ac Ynys Môn.

Rydym eleni wedi cyflawni dau farc ansawdd, yr AQS ar gyfer ein Gwasanaeth Cyngor a Gwybodaeth a CQS ar gyfer agweddau llywodraethol a strategol y Sefydliad. Cyflawnwyd hyn drwy waith tîm o fewn y maes rheoli a hefyd perfformiad staff ledled yr Elusen, a hynny er budd y bobl hŷn yr ydym yn eu gwasanaethu.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gallu hawlio dros £1.2 miliwn mewn arian lles. Mae'n galluogi pobl i dalu am wasnanaethau ychwanegol i'w helpu i fod yn annibynnol a chyfrannu'n gadarnhaol tuag at wella eu lles emosiynol ac/neu gorfforol. Wrth gwrs mae'r sicrwydd o gymorth ariannol, yn arbed poen o dderbyn biliau, a hyderaf yn ei dro yn arwain i fwynhad o leddfu eu pryderon.

Rydym yn falch iawn o'n gweithwyr gofal a'n gofalgwyr, sy'n aml yn arwyr anghofiedig yn ein cymunedau. Yn ddi os maent yn darparu gwasanaethau hanfodol i'r rhai mwyaf bregus yn ein msg. Mae ein tîm yn tyfu'n gyson ac rydym yn cefnogi mwy a mwy o bobl i aros yn eu cartrefi eu hunain. Un o'n prif amcanion ar gyfer y flwyddyn nesaf yw grymuso i gynllunio tuag at anghenion y dyfodol, bydd medru cynllunio yn ei dro yn arwain arbed argyfwng a'r angen am sylw brys fel a ddigwydd yn aml ar hyn o bryd. Tra bod nod addysgu a hyrwyddo cynllunio byddwn wrth gwrs ar gael i gynorthwyo ar frys fel bo'r angen.

Eto eleni mae'r hinsawdd ariannol anodd yn parhau a rhaid bod yn wylidwrs wrth symud ymlaen trwy ansicrwydd a chyfyngiadau ariannol sy'n aml yn cyfyngu ar ein gallu i ddarparu cymorth i fwy o bobl. Mae'r nifer o bobl yr ydym yn weld yn sylweddol, ac yn raddol gynyddu o flwyddyn i flwyddyn, ond mae'n hynod rwystredig, oherwydd diffyg cyllideb na allwn uchafu'r nifer o achosion a gaiff sylw gennym.

Rydym trwy ein gwasanaethau Yswiriant a manwerthu wedi gallu rhoi rhodd o incwm anghyfyngedig er budd ein gwaith elusennol, ac rydym yn ddiolchgar am y rhoddion personol sy'n darparu incwm ychwanegol i dalu am staff yr Elusen. Rydym wrth gwrs yn ddiolchgar i'n tîm ymroddedig o wirfoddolwyr, sy'n darparu cymorth hanfodol yn ein gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Rydym yn parhau i ddatblygu'r gwasanaethau hynny sy'n dod o dan gylch gwaith ein hagwedd menter gymdeithasol o'n gweithrediadau. Yn ystod y flwyddyn roedd Age Cymru Gwynedd a Môn ar y rhestr fer derfynol Gwobrau Busnes Cymdeithasol Cymru 2018, yn benodol o dan y categori Menter Gymdeithasol Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Hoffwn ddiolch hefyd i'n Bwrdd Ymddiriedolwyr, am yr arweinyddiaeth a'r gefnogaeth parhaus yn ystod 2018-19. Rydym wedi gallu cyflawni llawer yn ystod y blynyddoedd diweddar a hoffwn achub y cyfle i ddiolch iddynt.

Diolch unwaith eto eleni i'r holl staff a'r gwirfoddolwyr, ein partneriaid, ein noddwyr a chyfranwyr oll sydd wedi cyfrannu tuag at waith Age Cymru Gwynedd a Môn.

Gobeithiwn y byddwch yn darllen yr adroddiad yn ei chyfanrwydd, a chroesawir eich sylwadau a'ch adborth ar sut allwn wella ac addasu ein gwasanaethau ymhellach er budd y bobl yn ein cymunedau lleol.

Eleri Jones,
Prif Swyddog

Y Bwrdd Ymddiriedolwyr



Cadeirydd

Dafydd Iwan

Is-gadeirydd

Wynne Williams

Trysorydd

Alwyn Jones

Ymddiriedolwyr

Gwilym Ellis Evans

Meinir Owen

Anwen Hughes

John Pritchard

Neville Evans

Cledwyn Williams

Nôd ac amcanion yr elusen

Amcan yr Elusen yw:- I Greu Cymru Oed Gyfeillgar

- Hyrwyddo lles pobl hŷn i gadw eu hannibyniaeth i fyw bywyd llawn a bodlon yn eu cartrefi eu hunain.

Nôd yr Elusen yw i :-

- Geisio creu cyfleoedd i alluogi pobl hŷn i gadw eu hannibyniaeth i fyw bywyd llawn a bodlon yn eu cartrefi eu hunain pe dymunir.
- Gwella cyflwr bywyd pob dydd pobl hŷn a'u gofalwyr.
- Ceisio hyrwyddo datblygiad gwasanaethau yn arbennig i'r rhai sydd yn hŷn ac yn ddryslyd eu meddwl a/ neu sydd yn fregus.
- Cefnogi a hyrwyddo gwasanaethau sydd yn gydgysylltiol, integredig ac sydd yn defnyddio adnoddau yn effeithiol.
- Hyrwyddo agwedd bositif tuag at bobl wrth iddynt heneiddio ac i gefnogi agwedd bositif tuag at heneiddio.
- Hyrwyddo gwasanaethau addas i unigolion sy'n cyrraedd gofynion yr unigolyn yn ei gyfanrwydd.

Amcanion i'r dyfodol :-

- Datblygu gwasanaethau sydd yn gynaliadwy ar gyfer datblygiad yr elusen yn y dyfodol.
- Darparu gwasanaeth o safon sydd yn addas at ddiben pobl hŷn yn gymesur â'u hanghenion a'u dyheadau.
- Mwy o gydweithio gyda phartneriaid ar draws pob sector.
- Llwyddo drwy'r holl fentrau i sicrhau sylfaen ariannol cadarn gan geisio cael cydbwysedd rhwng annog mentrau newydd a chynnal dadansoddiad cost gadarn.

Arian wrth gefn

Mae Bwrdd Ymddiriedolwyr Age Cymru Gwynedd a Môn wedi trafod y polisi arian wrth gefn ac wedi penderfynu y dylai cronfeydd anghyfyngedig, nad ydynt wedi'u dynodi ar gyfer defnydd penodol, gael eu cynnal ar lefel sy'n cyfateb i wariant rhwng tri a chwe mis.

Defnyddiwyd cronfeydd wrth gefn yr elusen yn y blynyddoedd diwethaf i fuddsoddi yn yr adeiladau sydd at ddefnydd yr elusen, a fydd yn y tymor hir yn darparu incwm a sefydlogrwydd i'r elusen.

Mae'r ymddiriedolwyr o'r farn y bydd y cronfeydd wrth gefn yn sicrhau y byddant yn gallu parhau â'r nodau ac amcanion elusennol tra bydd ystyriaeth yn cael ei roi i ffyrdd y gellir codi arian ychwanegol.

Nodau'r dyfodol fydd cynyddu argaeledd cronfeydd wrth gefn yn y banc er mwyn caniatáu unrhyw amrywiadau mewn cyllid.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi asesu'r prif risgiau y mae'r cwmni elusennol yn agored iddynt, ac yn fodlon bod systemau yn eu lle i liniaru'r risgiau mawr.

Cyngor a Gwybodaeth

A wyddoch chi?

01286 685919

Darparwn gyngor arbenigol ar pob elfen o gyngor a gwybodaeth mewn perthynas â heneiddio. Mae hwn drwy'r ffôn, arlein drwy ein gwefan ac ebost, yn ogystal â sesiynau galw mewn.



9,292 o ddefnyddwyr wedi edrych ar ein gwefan gyda'r tudalennau cyngor a gwybodaeth y rhai mwyaf poblogaidd.

1,388 wedi galw ein llinell Cyngor a Gwybodaeth.



Mae ein Tîm Cyngor a Gwybodaeth yn darparu dau brif wasanaeth sef cyngor budd-daliadau a chyllid. Bydd rhain yn sicrhau incwm ychwanegol i bobl a gwneud arbedion, gan arwain at well ddyfodol yn ariannol.



£1,276,721.81

Wedi ei sicrhau ar gyfer 321 o unigolion

Mae'r gwasanaeth Cyllid Iach wedi ei anelu tuag at gefnogi ac annog unigolion ym mlynnyddoedd hwyr o fywyd i fod â gwell gallu a sgiliau i adolygu a delio gyda'u materion ariannol personol.



186 o faterion megis newid cyflenwyr cyfleustodau



Cyswllt wedi ei weud
1,632 o weithiau ar gyfer y
gwasanaeth Cyngor a
Gwybodaeth, gyda'r
mwyafrif dros y ffôn a
thrwy ymweliadau
gartref.

Cysylltiadau wedi eu gwneud trwy gyfrwng:

Ymweliadau gartref - 321
Sesiynau galw mewn - 249
Ymweliadau i'r swyddfa - 138
Ffôn - 823

Mae Bathodynau Parcio
Glas i'r anabl yn hanfodol
i rai pobl gan sicrhau
modd cynnal eu
hannibyniaeth, mynychu
gweithgareddau o ddydd i
ddydd meguis mynd i'r
siop a mynychu
apwyntiadau meddygol.

Rydym wedi
cynorthwyo **67**
unigolyn gyda
gwneud cais
llwyddiannus am
Fathodyn Parcio
Glas i'r anabl.



Eiriolaeth

A wyddoch chi?

01286 685922

Mae eiriolaeth yn broses o gefnogi a galluogi pobl i: Fynegi eu barn a'u pryderon. Cael mynediad i wybodaeth a gwasanaethau. Amddiffyn a hyrwyddo eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Archwilio dewisiadau ac opsiynau.

Ffioedd Cartrefi Gofal

Gwasanaethau Cymdeithasol

Rhyddhau o'r ysbyty—cyfathrebu gyda cleifion a/neu y teulu

Cartrefi Gofal

Tai cymdeithasol

Cyllid clientau - talu ffioedd cartrefi gofal

Mae eiriolwr yn rhywun sy'n darparu cymorth eiriolaeth pan fydd ei angen arnoch. Gall eiriolwr eich helpu i gael mynediad i wybodaeth sydd ei hangen arnoch neu fynd gyda chi i gyfarfodydd neu gyfweiliadau, mewn rôl gefnogol.

Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019

**Rydym wedi cynorthwyo
189 o unigolion**

Ar draws Gwynedd a Môn

Gwynedd 78

Ynys Môn 96

Anhysbys 15





Roedd Mr Jones yn byw gartref ac yn gofalu am ei wraig, sy'n byw gyda dementia - nid oedd yn derbyn unrhyw gefnogaeth pan ddaeth i gyswllt a'n swyddog Eiriolaeth. Trefnodd Gwasanaethau Cymdeithasol rhywgymaint o ofal seibiant i'w wraig; ond roedd hyn yn golygu bod rhaid iddo yrru ei wraig ar draws yr Ynys i ddarpariaeth arbenigol. Byddai'n rhaid iddo wedyn aros o gwmpas i'w danfon yn ôl adref. Mewn gwirionedd, roedd hyn yn golygu nad oedd ef yn cael llawer o seibiant.

Holodd am gefnogaeth ein swyddog eiriolaeth ac wrth iddi sylweddoli ei fod yn gyn-filwr, siaradodd gyda sefydliad SSAFA. Aeth SSAFA ymlaen i drefnu i Mr Jones gael mynd i Cumbria am wythnos, a hynny yn rhad ac am ddim. Gan ei fod yn gyn-aelod hefyd o'r Gwasanaeth Tân, fe ddarparodd y staff hwythau westy pum seren iddo trwy gefnogaeth SSAFA, am wythnos. Gwnaed trefniadau yr wythnos honno, fel bod Mrs Jones yn mynd â thacsi i fynd â hi i ganolfan dydd yn agosach at adref lle'r oedd hi'n dal i adnabod pobl leol.

Roedd Mr Jones yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth a gafodd gan bob un o'r mudiadau gwirfoddol. Mae bellach yn derbyn ei hawliau lwfans presenoldeb a lwfans gofalwr a parhau hefyd i dderbyn cefnogaeth y Gwasanaeth Tân a SSAFA. Mae bellach yn mynd i RAF Valley un diwrnod y mis i gael paned a sgwrs gyda swyddogion. Mae Mrs Jones nawr hefyd yn derbyn gwasanaethau gan y Gymdeithas Alzheimer's.



Gwasanaethau Gofal

A wyddoch chi?

01286 685911

Rydym yn darparu llawer o wasanaethau dan ein gwasanaeth gofal, wedi ei deilwra i ddiwallu anghenion unigolyn.

Gan gychwyn gyda gwasnaeth glanhau domestig.

Mae gennym **30** o ofalwr sydd wedi cymhwyso i gynorthwyo dros 200 o bobl i fyw yn annibynol yn ystod 2018-2019



Eleni darparwyd dros **8,700** awr o wasanaeth i bobl Gwynedd a Môn



Rydym hefyd yn darparu gwasanaethau ychwanegol megis Gofal Dydd, Gofal Traed a Chlybiau Cinio.

Nid yn unig y darperir cymorth ymarferol drwy'r gwasanaethau hyn, ond maent hefyd yn mynd i'r afael â threchu unigrwydd ac ynysu cymdeithasol.



Cynhaliwyd **112** o sesiynau Clwb Cinio gan ddarparu **2,672** o brydau poeth a maethlon.

276 o sesiynau Gofal Dydd wedi eu cynnal yng Ngwynedd ac Ynys Môn gyda **1,627** yn mynychu. Mae hyn yn arwain at darpariaeth o gwmniaeth a chyfeillgarwch.

Mae Mr O yn mynychu ein darpariaeth gofal dydd pob dydd Llun a dydd Mercher. Mae'n dod i'r ganolfan gyda cludiant ein bws sydd yn dod i'w gartref yn y bore ac yna yn ei ddychwelyd adref ar ddiwedd y dydd.

Roedd Mr O yn dod yn fwyfwy ynysig, am nad oedd yn mynd allan, gan ei fod wedi cael strôc rhai blynnyddoedd yn ôl . Golygai hyn bod yn anodd iddo gyfathrebu ar adegau. Roedd ei wraig sy'n ofalwr iddo, hefyd yn sylweddoli nad oedd ganddi 'r amser haeddiannol i siopa nac i ymgymryd â gweithgareddau cymdeithasol, ac roedd hi yn teimlo'n isel ac angen seibiant.

Bellach mae gan Mr O batrwm o fynychu'r Clwb dydd yn rheolaidd ac mae'n gyfforddus gyda'r awyrgylch a chyda'i gyd-fynychwyr. Mae'n mwynhau'r cinio dau gwr sydd wedi'i goginio yn yr adeilad ac yn mwynhau'r gwmniaeth amrywiol.

Mae gwraig Mr O wedi gweld gwelliant yn ei hwyliau cyffredinol a hefyd gwelliant yn ei leferydd ers iddo fynychu'r ddarpariaeth yn Y Cartref.

Mae Age Cymru Gwynedd a Môn yn credu bod ein darpariaeth gofal dydd yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl, yn gwella eu llesiant yn gyffredinol, a hefyd yn gwella eu hunan-hyder tra hefyd yn rhoi ymdeimlad o bwrpas iddynt.





Gall unrhyw un sydd yn derbyn budd-dal fanteisio ar y Cynllun Siopa. Darperir cymorth gyda siopa wythnosol am fwyd; rhywbeth all fod yn anodd wrth i ni fynd yn hŷn.



1,319 o Dripiâu siopa wedi eu gwneud gyda, neu ar ran ein Clientiaid Siopa Cefnogol.

2,705
awr wedi eu treulio yn darparu'r gwasanaeth.

Mae Mr G bellach wedi bod yn derbyn cefnogaeth siopa Age Cymru Gwynedd a Môn ers sawl blwyddyn. Oherwydd problemau symudedd, afiechyd, diffyg cefnogaeth a materion ariannol, daeth yn amhosib i Mr G gadw'n annibynnol (yn cynnwys gallu mynd i siopa) oni bai bod hynny drwy gymorth ffrindiau a theulu.

Gan fod aelodau teulu Mr G yn brysur yn eu bywydau dyddiol, roeddent yn ei chael yn anodd neilltuo digon o amser i gefnogi Mr G gyda'i holl anghenion. Arweiniodd hyn at gyfeirio i Age Cymru Gwynedd a Môn i ymholi am wybodaeth am ein gwasanaethau.

Dyrannwyd gwasanaeth cymorth siopa wythnosol i Mr G, a hynny am ddim cost iddo gan ei fod yn derbyn budd-dal, ac felly yn ei alluogi i fod yn gymwys ar gyfer y gwasanaeth. Mae un o'n haelodau staff Gofal yn mynd â Mr G allan unwaith yr wythnos i wneud ei siopa wythnosol yn yr archfarchnad o'i ddewis erbyn hyn. Adroddodd Mr G yn ôl i'n Rheolwr Gofal ei fod bellach yn teimlo mwy annibynnol am nad oes raid iddo bellach ddibynnu ar deulu a ffrindiau i'w helpu, ond yn hytrach mwynhau eu cwmni pan fyddant yn galw heibio.

Cynllun Siopa Brynsiencyn

Mae Age Cymru Gwynedd a Môn, mewn partneriaeth a Chyngor Cymuned Brynsiencyn yn defnyddio rhan o arian ewyllys y diweddar John Trefor Roberts i baratoi cynllun siopa unwaith yr wythnos i drigolion Brynsiencyn.

Mae trigolion hŷn y pentref yn edrych ymlaen yn flynyddol am eu hamperi Nadolig, sy'n cael eu darparu a'u cludo gan aelodau brwdfrydig y Ganolfan Heneiddio'n Dda ym Mrynsiencyn. Diolch yn fawr iddynt am eu cymorth yn ystod y flwyddyn.



Cyfleon cymdeithasu

A wyddoch chi?

01286 808732

Rydym wedi trefnu neu gefnogi sawl digwyddiad cymdeithasol mewn amryw o leoliadau ar draws Gwynedd ac Ynys Môn.

O drefnu blodau i gadw'n heini, neu dim ond galw heibio am banded a chacen!

Cefnogwyd **11** o Ganolfannau Heneiddio'n Dda yng Ngwynedd a Môn. Un o'r rhain yw ein hwb heneiddio'n dda yn Y Cartref, Bontnewydd lle bu i 408 o weithgareddau gymryd lle rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019.

Dadansoddiad o'r digwyddiadau ym Montnewydd

Dosbarth Ymarfer Corff
37 sesiwn

Gweu
30 sesiwn

Sinema
16 sesiwn

Creu Cardiau
48 sesiwn

Dosbarth Cyfrifiaduron
39 sesiwn

Trefnu blodau
8 sesiwn

Arlunio a Chrefftau
49 sesiwn

Clwb Cerdded
10 sesiwn

Edrychwch ar ein gwefan am fanylion Canolfan yn eich ardal

Roedd Mrs S yn treulio llawer o amser gartref, yn enwedig dros fisoedd y gaeaf, ac nid oedd yn teimlo fel mynd allan. Mae hi'n byw yn lleol a daeth i glywed am y Ganolfan Heneiddio'n Dda yn Y Cartref Bontnewydd a oedd wedi agor yn y pentref. Wedi ymweliad gadawyd argraff fawr arni a theimlai ei bod wedi cael croeso cynnes iawn gan bawb, felly penderfynodd roi cynnig ar ychydig o'r gweithgareddau sydd ar gael. Roedd y dosbarthiadau trefnu blodau wedi dal ei sylw yn benodol ac felly rhoddodd ei henw i lawr.

Ers hynny mae hi wedi ymuno â llawer o'r gweithgareddau megis y dosbarth ymarfer corff, clwb cerdded a'i hoff un yw'r dosbarth Creu Cardiau sy'n digwydd bob Dydd Mercher.

Mae hi'n teimlo ei bod wedi dysgu cymaint o'r sesiynau hyn ac wedi datblygu llawer o sgiliau, gan hyd yn oed sefydlu ystafell greffttau yn Y Cartref lle mae'n mwynhau treulio amser. Esboniodd Mrs S "Mae wedi agor fy meddwl i fyd cwbl newydd."

Mae Mrs S wedi cael pobl eraill o'r pentref i gymryd rhan yn y gweithgareddau ac yn treulio llawer o'i hamser yn Y Cartref, yn cymryd rhan yn y gweithgareddau ac yn mwynhau'r bwyd ac awyrgylch yn y caffi, sef uchafbwynt y dydd medda hi.



Rydym yn rhedeg caffis sy'n cynnig awyrgylch hamddenol a chyfeillgar.

Fe'u lleolir mewn ardaloedd hygrych sydd â chysylltiadau trafndiaeth cyhoeddus cyfagos.

50 o sesiynau te prynhawn wedi cymryd lle yng Nghaffi'r Cartref, Bontnewydd LL54 7UW ar gyfer 284 cwsmer!



Ymwelodd Comisiynydd Pobl Hŷn newydd i Gymru gyda Caffi Hafan Bangor yn ystod y flwyddyn. Cynhaliwyd hefyd ddigwyddiadau gwybodaeth arbennig yn Hafan i gyd-fynd gyda Wythnos Positif am Oed 2018.

Rydym yn rhedeg caffi yng Nghanolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon. Gyda diolch i'n gwirfoddolwyr mae'r incwm anghyfyngedig sy'n cael ei godi yno yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gwasanaethau elusennol.



Bod yn greadigol

Criw arlunio a chrefftau Y Cartref

Mae'r criw arlunio a chrefftau wedi parhau i gwrdd yn rheolaidd pob Ddydd Mawrth yn y ystod y flwyddyn ac wedi croesawu aelodau o'r newydd.

Sicrhawyd nawdd drwy **fenter Gŵyl** Gwanwyn eto eleni a bu i ymdrechion ganolbwyntio ar greu arddangosfa o waith wedi eu selio ar gymeriadau 'Under Milk Wood' gan Dylan Thomas, a hefyd ar ymgyrch y Syffrajets.


Uchafwbynt meter Gwanwyn oedd cynnal noson yn Y Cartref Bontnewydd i arddangos a dathlu'r gwaith celf a chrefft gyda dros 60 o bobl yn dod drwy'r drysau er mwyn cael y cyfle i edmygu'r arddangosfa.



Comisiwn arbennig gan Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan

Mae Cefyn Burgess yn decstiliwr proffesiynol cydnabyddedig ar y lefel rhyngwladol. Yn ystod 2018, yn dilyn comisiwn gan Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan, aeth ef ynghyd a 45 o ferched o ardaloedd Ynys Môn, Arfon a Sir Ddinbych, a hefyd plant o ysgolion Ynys Môn, i weithio ar ail-greu gwaith tecstilau a brodwaith canoloesol. Byddai rhain wedi bod yn cael eu harddangos yn Llys Llewelyn a Llys Rhosyr - llysoedd hynafol hen dywysogion Cymru. Mae'r gwaith yma wedi bod ar themâu'r mabinogi megis Culwch ag Olwen.

Yn ystod y flwyddyn gwnaeth Cefyn a'i griw o frodweithwyr ddefnydd helaeth o Y Cartref Bontnewydd lle'r oedd ef a'r criw o ferched yn dod at ei gilydd yn rheolaidd i weithio ar y comisiwn arbennig yma. Rydym yn sicr yn ymfalchio yn y ffaith bod Y Cartref wedi chwarae ei ran mewn gwaith mor bwysig ac arbennig a hyn.



Nid yn unig yr ydym yn cynnig cyfleon cymdeithasu, rydym hefyd yn cynnig cyfleon addysgol.

Dosbarthiadau TG



Dosbarthiadau TG pob 3-4 wythnos yng Nghricieth. Grwpiau hyd at 5 person yn mynychu pob sesiwn.

Darparwyd 39 dosbarth yn Y Cartref Bontnewydd.



Darperir cefnogaeth i grwpiau a hefyd ar sail un i un i rai sydd ar gychwyn.





Rhai o griw Men's Shed Caernarfon gyda mainc oedd angen ychydig o lafur cariad ganddynt.

Men's Shed
Caernarfon yn
mynd o nerth i
nerth

Mae gennym bellach
22 o aelodau wedi
ymuno â'r Shed.

924 o bresenoldebau
rhwng Ebrill 2018 ac
Mawrth 2019.

Mae'r grŵp wedi gweithio ar
sawl prosiect er budd y
gymuned dros y ddwy
flynedd ers sefydlu'r sied.

Yn ddiweddar bu'r dynion yn
gweithio ochr yn ochr â
disgyblion Ysgol Maesincla
Caernarfon i greu 'Mainc
Cyfeillio' i'w gosod yn iard
Cyfnod Allweddol 2.



21 Mae derbyn grantiau gan Age Cymru a Chegin y Gymuned wedi ein galluogi i godi Tŷ Gwydr i dyfu cynnyrch ein hunain.



Mae Mr A wedi gwirfoddoli gyda'r Men's Shed Caernarfon ers iddo gychwyn yn ôl ym mis Chwefror 2017. Mae hefyd yn gwirfoddoli i Lygaid Maesincla Caernarfon a Phrosiect Garddio'r Men's Shed. Mae'n ddyn gweithgar iawn ac yn wir yn credu mewn helpu'r gymuned. Trwy weithio gyda gwahanol sefydliadau mae'n cymryd rhan mewn llawer o brosiectau cymunedol.

Mae'n trefnu dosbarthiadau ar gyfer pobl dros 50 oed sy'n cynnwys cadw'n heini a dosbarthiadau cyfrifiadurol. Mae hefyd yn cymryd gofal o'r Clwb Garddio yn Y Cartref Bontnewydd sydd wedi esblygu o ddatblygu darn garw o dir fewn i lecyn tyfu llysiau a hefyd codi tŷ gwydr. Eleni tyfwyd cynnyrch gellir ei ddefnyddio yn ffresh yn ein caffi ym Montnewydd.

Saer yw ei grefft, mae bob amser yn gweld gwaith sydd angen ei wneud ac mae'n teimlo ymdeimlad o falchder o allu helpu eraill. Dywedodd Mr A "Am bob caredigrwydd a roddwch, rydych yn derbyn dwbl y caredigrwydd yn ôl".



Yn y Gymuned

A wyddoch chi?

01286 808732

Darpariaeth 'Pryd Adref' yn yr ardal leol

Ydych chi'n cael trafferth siopa neu fynd allan i gymdeithasu? A hoffech dderbyn prydau bwyd maethlon yn rheolaidd?



Datblygiad pwysig yw ein darpariaeth o wasanaeth prydau bwyd gartref y byddwn yn ei gynnig yn yr ardaloedd hynny ym Montnewydd a'r cyffiniau.

Mae'r prydau bwyd blasus a maethlon yma yn cael eu paratoi'n ffres o'r cegin yn Y Cartref Bontnewydd!





A wyddoch chi?

01286 685921

Rydym wedi cynnal 4 Fforwm Pobl Hŷn ar Ynys Môn yn ystod 2018-19, gyda oddeutu 50 o unigolion yn bresennol ym mhob fforwm.

Trafodwyd nifer o eitemau yn y fforymau a chroesawyd siaradwyr gan gynnwys:

- Heléna Herklots CBE Y Comisiynydd Pobl Hŷn newydd i Gymru
- Uwch Swyddogion o Gyngor Ynys Môn
- Swyddog Datblygu y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol (RVS)
- Prif Swyddog Hosbis St Davids

Mae yna eitem ar bob agenda fforwm i drafod materion lleol - roedd gwell trafndiaeth gymunedol a chyhoeddus a hefyd cyfleusterau cyhoeddus yn agweddau amlwg iawn.

Rydym yn rhedeg 4 siop wedi eu lleoli yn:

- Caernarfon
- Blaenau Ffestiniog
- Llangefni
- Porthmadog

Mae gennym gyfanswm o 32 o wirfoddolwyr yn ein cynorthwyo gyda'r gwaith beunyddiol o redeg y siopau. Maent yn cynorthwyo gydag ystod o dasgau gan gynnwys gweithio ar lawr y siop, gweithredu'r til a hefyd didoli gwahanol eitemau dillad, bric a brac ac ati a roddwyd fel rhoddion i ni.

Mae Age Cymru Gwynedd a Môn hefyd yn derbyn ac yn gwerthu dodrefn o'i siopau yn ogystal â nwyddau trydanol.



Eich cyfraniad chi

A wyddoch chi?

01286 808732

Mae gennym 91 o wirfoddolwyr wedi cofrestru gyda ni ar hyn o bryd, yn cynorthwyo gyda gwaith o ddydd i ddydd o redeg yr elusen.

Maent yn darparu 10,992 o oriau gwirfoddoli y flwyddyn!

Mae'r holl wasanaethau rydym yn ddarparu yn derbyn mewnbwn ein gwirfoddolwyr gwych ac ni fyddai'n bosibl cyflawni cymaint hebddynt. Felly hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddweud diolch yn fawr i bob gwirfoddolwr!

Isod mae Meinir a Bethan yn nigwyddiad blynyddol Gwobrwyo Gwirfoddolwyr Gwynedd. Gyda diolch i Mantell Gwynedd.



Ers ymddeol roedd Miss L yn chwilio am rywbeth i'w chadw'n brysur. Roedd hi'n newydd i'r ardal hon ac wedi clywed am Y Cartref ym Montnewydd; ond prin yn adnabod unrhyw un yn lleol.

Wrth ymweld â'r Cartref gyda ffrind, penderfynodd gynnig gwirfoddoli. Roedd ganddi gefndir mewn gweinyddiaeth a theimlai y byddai'n mwynhau helpu yn y dderbynfa. Byddai'r rôl yn addas iddi gan fod cyfarfod a helpu pobl yn rhywbeth roedd hi'n ei fwynhau.

Mae Miss L bellach wedi bod gyda ni ers 2 flynedd ac yn teimlo ei bod wedi gwella ei sgiliau ac wedi gweld cynnydd yn ei galluoedd. Mae hi'n helpu ym mhob adran o Age Cymru Gwynedd a Môn. Hi yw wyneb yr elusen pan fyddwch chi'n cerdded i mewn i'n pencadlys a bydd hi yn ateb y mwyafrif o ymholiadau sy'n dod dros y ffôn. Mae ei hyder wedi tyfu o ganlyniad i'w phrofiad gwirfoddoli ac mae hi wedi gwneud ffrindiau y tu mewn a thu allan i'r sefydliad trwy wirfoddoli. Mae hi'n edrych ymlaen at ddod i Bontnewydd ddwywaith yr wythnos ac mae'n hapus ei bod hi'n gallu helpu.

Esboniodd Miss L "Trwy allu helpu yn Age Cymru Gwynedd a Môn, rwyf wedi dod o hyd i bwrpas mewn bywyd ac rwy'n llawer mwy hyderus ynof fy hun." O safbwynt yr elusen, rydym yn hynod ddiolchgar am ei holl gymorth a byddem yn ei chael yn anodd heb ei help!



Ddiwedd Medi 2018 aeth Swyddogion o'r elusen i noson wobrwyo yn Neuadd y Ddinas Caerdydd a oedd o ganlyniad i ddarpariaeth Hwb Cymunedol Y Cartref Bontnewydd yn cael ei roi ar restr fer Gwobrau Busnesau Cymdeithasol Cymru o dan y categori Iechyd a Gofal. Er na chipiwyd y wobwr gyntaf, rydym yn hynod falch fod y Cartref Bontnewydd wedi derbyn sylw haeddiannol ar y lefel genedlaethol.



Gwasanaethau newydd ar gyfer 2019

CYNLLUNIO I'R DYFODOL

Mae ein Gwasanaeth Cynllunio i'r Dyfodol ar gyfer pobl 50 oed a throsodd sydd yn wynebu sefyllfa arwyddocaol mewn bywyd.

Cynllunio i'r Dyfodol

Mae cynllunio yn ran o fywyd pob dydd. Bydd ein Gwasanaeth Cynllunio i'r Dyfodol yn eich cynorthwyo a hwyluso i gael tawelwch meddwl sydd yn dod gyda'r cynllunio.

Llunio Ewyllys

Mae cael Ewyllys mewn lle yn caniatáu i'ch anwyliaid ddatrys popeth yn ddi-drafferth. Heb Ewyllys, mae yna rai rheolau sy'n pennu sut y dylai'r arian, yr eiddo a'r meddiannau gael eu dyrannu, ac efallai nad dyna'r hyn y byddech yn dymuno. Mae'n werth cofio hefyd na all partneriaid di-briod etifeddu oddi wrth ei gilydd oni bai bod Ewyllys mewn lle a gallasai unrhyw ddymuniad i'ch plant beidio cael eu cyflawni. Mae hefyd yn bwysig, os ydych chi'n ail-briodi neu fod amgylchiadau'n newid, eich bod yn newid eich Ewyllys yn unol â hynny.

Pŵer Atwrnai Cyfreithiol

Dogfen gyfreithiol yw hon sydd yn eich galluogi i apwyntio un neu fwy o bobl i'ch cynorthwyo gyda gwneud penderfyniadau neu i wneud penderfyniadau ar eich rhan, pe bai chi yn methu. Mae hyn yn atal dieithryn, neu unrhyw un nad ydych yn ymddiried ynddynt, o allu cael unrhyw rym dros benderfyniadau am faterion yn ymwneud a'ch llesiant.

Penderfyniad Rhagflaen (Ewyllys Fyw)

Mae Penderfyniad Rhagflaen yn caniatáu i chi fynegi'ch dymuniadau i wrthod triniaeth feddygol yn y dyfodol. Dim ond mewn sefyllfa ble na fydddech yn gallu cyfleu neu gyfathrebu eich dymuniadau fyddai hyn yn berthnasol.

**Gall ein
Gwasanaeth
Cynllunio i'r
Dyfodol newydd
gefnogi gyda'r
canlynol:**



Cysylltwch â ni er mwyn trafod unrhyw un o'r materion yma neu unrhyw bryderon sydd gennych; a hynny gyda chyfrinachedd ac o fewn eich cartref.

Gwynedd: Bethan Edwards Newport ar 01286 677711

Ynys Môn: Sylvia Targett ar 01286 685922

Neu cysylltwch gyda'r brif swyddfa ar 01286 677711

Gadael etifeddiaeth

Mae Age Cymru Gwynedd a Môn yn elusen annibynol leol sydd wedi ymrwymo i gefnogi pobl hŷn sydd ein hangen. Os ydych yn penderfynu gadael rhodd yn eich ewyllys i ni, byddwch yn ein cefnogi i wella ansawdd bywyd pobl hŷn yng Ngwynedd a Môn.

Mae unrhyw rôdd yn werthfawr i Age Cymru Gwynedd a Môn ac rydym yn wir ddiolchgar am unrhyw rôdd a fuasech yn ei adael i ni, yn dilyn cymryd gofal o'ch teulu a ffrindiau yn gyntaf wrth gwrs. Po bynnag werth eich rhôdd, buasai yn chwarae rhan werthfawr mewn darparu cymorth i rai sydd ein hangen.

Staff

Prif Swyddog
Eleri Lloyd Jones

Rheolwr Busnes a Datblygu
Aled Evans

Swyddog Eiriolaeth
Sylvia Targett

Rheolwr Masnachu
Nerys Williams

Swyddog Masnachu
Gwilym Jones

Rheolwr Gofal Cartref
Beverley Rowlands
Melissa Rowlands

Rheolwr Cyngor a
Gwybodaeth
Ann Parry

Swyddogion Cyllid Iach
Bethan Edwards Newport
Nia Jones

Rheolwr Swyddfa
Elaine Williams

Swyddog Ariannol
Enfys Williams

Swyddog Personel
Elen Jones

Swyddog Gweithredol
Y Cartref
Nicola Jennings

Cydllynydd Caban Dynion
Brian Cook

Swyddog Datblygu
Maldwyn Roberts

Swyddog Cymunedol
Ynys Môn
Sandra Roberts

Swyddog Croeso/
Gweinyddol
Ruth Jones

Rheolwyr Siopau Elusen
Caernarfon
Gillian Naylor
Llangefni
Margaret Thomas
Blaenau Ffestiniog
Arwel Jones
Porthmadog
Dorothy Murchie
Swyddog Dosbarthu
John Taylor

Rheolwyr Caffis
Sheila Lambrecht
Elaine Jones
Lynette Humphreys
Meryl Williams

Bancwyr
HSBC
24 y Maes
Caernarfon

Brocwr
Hargreave Hale Ltd
Bangor

Cyfrifwyr
A Hughes-Jones
Dyson & Co
Cyfrifwyr Siartredig
Capel Moreia
South Penrallt
Caernarfon

Cyfreithwyr
Parry Davies Clwyd-
Jones a Lloyd
Castle Chambers
2A Bridge Street
Caernarfon

Ein Gwasanaethau

- Cyngor a Gwybodaeth
- Budd-daliadau
- Ewyllys a Phwer Atwrnai
- Gwasanaeth Eiriolaeth Ynys Môn
- Eiriolaeth a chyngor a gwybodaeth i gyn-filwyr
- Heneiddio'n Dda
- Cynllun Siopa Gwynedd
- Clybiau Cinio
- Gwasanaeth Eistedd
- Cynhwysiad Digidol (TG)
- Fforymau
- Yswiriant
- Cymorthfeydd Cyfreithiol
- Siopau Elusen
- Gwasanaeth Caffi
- Gofal Personol
- Gofal Dydd
- Gwasanaeth Glanhau
- Torri Ewinedd Traed
- Gwirfoddoli
- Caban Dynion